

# Gweithdrefn Digwyddiadau / Damweiniau

## 1.0 Cwmpas a Phwrpas y Weithdrefn

Cwmpas a phwrpas y weithdrefn hon yw rheoleiddio'r gwaith o adrodd am bob digwyddiad neu ddamwain sy'n arwain at:-

- (a) Anaf personol
- (b) Difrod damweiniol sylweddol i eiddo
- (c) Y "digwyddiadau hynny y bu bron iddynt ddigwydd" sydd â'r potensial i achosi colledion, megis gollyngiadau cemegol a methiant strwythurol lle cafodd anaf neu golled ei osgoi

a chydymffurfio â dyletswydd y sefydliad o dan Reoliadau Nawdd Cymdeithasol (hawliadau a thaliadau) 1979. Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i bawb y mae gweithrediadau Coleg Caerdydd a'r Fro yn effeithio arnynt gan gynnwys cyflogwyr, myfyrwyr, contractwyr ac ymwelwyr, ond nid yw'n gyfyngedig i'r rhain.

Bydd mynediad i'r weithdrefn hon a'r holl ffurflenni a dogfennau cysylltiedig drwy adran Iechyd a Diogelwch mewnwyd y coleg

## 2.0 Diffiniadau

### 2.1 Damwain / Digwyddiad

*"Mae damwain yn ddigwyddiad ar wahân i farwolaeth neu anaf, ac mae'n fwy na dim ond digwyddiad; mae'n rhywbeth niweidiol sy'n digwydd yn annisgwyl."* (HSE 2012)

Mae pob damwain yn ddigwyddiad, nid damweiniau yw pob digwyddiad, nid yw materion fel achosion y bu bron iddynt ddigwydd neu achosion nad ydynt yn arwain at anafiadau yn cael eu dosbarthu fel damweiniau.

### 2.2 Anaf

Unrhyw ddigwyddiad sy'n arwain at niwed i berson yn y tymor byr neu'r tymor hir

## 2.3 Anaf difrifol

Unrhyw anaf y mae'n ofynnol rhoi gwybod i'r awdurdod gorfodi amdano o dan Reoliadau Adrodd am Glefydau, Anafiadau a Digwyddiadau Peryglus 2013

## 2.4 Mân anafiadau

Pob anaf nad yw'n ofynnol adrodd amdano yn 2.3 uchod

## 2.5 Cyflogai

Unrhyw berson sy'n gweithio o dan gontract cyflogaeth (â thâl neu'n ddi-dâl) i'r coleg, boed am gyfnod dros dro, cyfnod penodol neu'n barhaol. Unrhyw berson ar raglen o brofiad gwaith yn y coleg.

## 2.6 Ddim yn gyflogai

Unrhyw berson nad yw'n cael ei gyflogi gan y coleg sydd ar safle coleg, neu, ar fusnes coleg y tu allan i safle'r coleg gan gynnwys myfyrwyr ac ymwelwyr

## 2.7 Difrod i eiddo

Digwyddiadau lle mae colled ddamweiniol a sylweddol heb ei gynllunio yn digwydd i eiddo coleg o dan reolaeth, neu wedi'i leoli ar, safleoedd neu gyfleusterau coleg (heb gynnwys colledion oherwydd digwyddiadau diogelwch fel lladrata)

## 2.8 Digwyddiadau "y bu bron iddynt ddigwydd"

Digwyddiadau sydd â'r potensial o arwain at golledion yn 2.1, 2.2, a 2.3 uchod lle cafodd yr anaf neu'r golled sylweddol ei osgoi

## 2.9 Goruchwilydd

Y person sydd yn uniongyrchol gyfrifol am y person a anafwyd neu eiddo a ddifrodwyd o ddydd i ddydd

## 2.10 Cydgysylltydd Ystadau / Rheolwr Adran

Y sawl sy'n rheoli materion y safle / fîm gwasanaeth neu weithgaredd y person a anafwyd neu'r eiddo a ddifrodwyd ac a nodwyd ym Mholisi Iechyd a Diogelwch y Coleg fel y person cyfrifol

## 3.0 Y Weithdrefn Adrodd

Rhaid adrodd am yr holl anafiadau a digwyddiadau sydd wedi'u diffinio yn 2.0 uchod ar ffurflen

Inspirational. Inclusive. Influential.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

[www.cardiffandvalecollege.ac.uk](http://www.cardiffandvalecollege.ac.uk)

Rhif Fersiwn:	2
Rhif Adolygiad:	4
Dyddiad Adolygu:	Hyd 18

adrodd am ddigwyddiadau/damweiniau'r coleg (gweler atodiad A)

### 3.1 Mân anafiadau i gyflogeion

Llenwch y ffurflen adroddiad damweiniau, wedi'i llofnodi gan oruchwylydd. Anfonwch y ffurflen ymlaen i'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch a fydd yn cofnodi'r digwyddiad yn electronig ac yn anfon y ffurflen ymlaen at yr Adran Adnoddau Dynol i'w ffeilio yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

### 3.2 Mân anafiadau i rai nad ydynt yn gyflogeion

Llenwch y ffurflen adroddiad damweiniau, wedi'i llofnodi gan oruchwylydd. Ffurflen ymlaen i'r fîm Iechyd a Diogelwch a fydd yn cofnodi'r digwyddiad yn electronig ac yn anfon y ffurflen ymlaen at yr Adran Adnoddau Dynol i'w ffeilio yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

### 3.3 Anaf difrifol i gyflogeion a'r rhai nad ydynt yn gyflogeion

Rheolwr llinell yr ardal/adran lle mae damwain yn digwydd i adrodd ar unwaith i'r fîm Iechyd a Diogelwch drwy'r dulliau cyflymaf posibl. Y fîm Iechyd a Diogelwch i roi gwybod i'r awdurdod gorfodi am ddigwyddiad yn unol â'r gofynion o dan RIDDOR. Ffurflen Adrodd am Ddamweiniau i'w llenwi gan y rheolwr llinell sy'n gyfrifol am yr ardal/adran a'i hanfon ymlaen fel y nodir yn 3.1 a 3.2 uchod.

Rhaid rhoi gwybod am unrhyw anaf i ddysgwyr Dysgu Seiliedig ar Waith yn y gweithle y dylid adrodd amdano yn ôl Riddor i DfES ar ffurflen HS001 o fewn 5 diwrnod gwaith i'r digwyddiad. Wedi hynny, rhaid i'r adran Dysgu Seiliedig ar Waith ymchwilio'n llawn i achosion a chwblhau adroddiad llawn ar ddigwyddiadau ar Ffurflen AF1 a'i anfon ymlaen i DfES drwy'r ddolen ganlynol [pagaf@wales.gsi.gov.uk](mailto:pagaf@wales.gsi.gov.uk)

### 3.4 Damweiniau/digwyddiad nad yw'n arwain at anaf

Llenwch y ffurflen adrodd a'i hanfon ymlaen fel 3.1 a 3.2 uchod

### 3.5 Digwyddiadau y bu bron iddynt ddigwydd

Adroddwch am bob digwyddiad y bu bron iddo ddigwydd ar y ffurflen damweiniau/digwyddiadau gan nodi yn y golofn berthnasol ei fod yn ddigwyddiad y bu bron iddo ddigwydd. Ffurflen ymlaen i'r fîm Iechyd a Diogelwch a fydd yn cofnodi'r digwyddiad yn electronig ac yn anfon y ffurflen ymlaen at yr Adran Adnoddau Dynol i'w ffeilio yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

### 3.6 Difrod sylweddol i eiddo

Adroddwch ar unwaith gan ddefnyddio'r dull cyflymaf posibl i'r fîm Iechyd a Diogelwch a'r Rheolwr Ystadau. Anfonwch pob ffurflen digwyddiad/damwain at y Rheolwr Iechyd a Diogelwch o fewn 3 diwrnod gwaith i'r ddamwain/digwyddiad ddigwydd.

## 4.0 Ymchwilio

Ymchwilir i bob digwyddiad a damwain. Mae adran 6 yn cynnwys canllawiau ar y dulliau i'w mabwysiadu. Bydd lefel yr ymchwiliad yn adlewyrchu graddau neu ganlyniadau'r digwyddiad, a bydd yn cael ei gynnal gyda'r nod o'i osgoi rhag ail-ddigwydd.

Mae'n hanfodol cynnal ymchwiliad cyn gynted â phosibl ar ôl i'r digwyddiad ddigwydd. Fel hyn, ni fydd yr amodau wedi newid fawr ddim a bydd y digwyddiad yn ffres ym meddyliau unrhyw dystion.

## 5.0 Cyfrifoldeb Ymchwilio

### 5.1 Mân anafiadau

Bydd y fîm lechyd a Diogelwch yn cynnal ymchwiliad i bob mân anaf er mwyn canfod yr achosion uniongyrchol ac anuniongyrchol. Bydd goruchwyliwr y cyflogai/myfyriwr a anafwyd, neu'r ardal lle digwyddodd y digwyddiad, yn cynorthwyo'r fîm lechyd a Diogelwch yn yr ymchwiliad.

### 5.2 Anaf mawr

Bydd y Rheolwr Llinell yn cael ei gynorthwyo gan y fîm lechyd a Diogelwch yn cynnal ymchwiliad llawn i bob digwyddiad/damwain fawr. Bydd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl ar ôl i'r digwyddiad/damwain ddigwydd. Gellir galw ar aelodau eraill o staff i gynorthwyo gyda'r ymchwiliad os yw'r fîm, yn ystod yr ymchwiliad, yn cydnabod y gallent gynnig rhywfaint o gymorth/gwybodaeth werthfawr ynglŷn â'r ddamwain.

Bydd cynrychiolwyr diogelwch neu gyflogeion sy'n cynrychioli diogelwch yn cael cyfle i gymryd rhan ym mhob ymchwiliad sy'n deillio o ddigwyddiadau a damweiniau i'r bobl maen nhw'n eu cynrychioli.

## 6.0 Adroddiad yr Ymchwiliad

### 6.1 Mân anaf

Bydd adroddiad byr yn cael ei baratoi ar gyfer pob mân anaf gan y fîm lechyd a Diogelwch yn manylu ar ganlyniadau'r ymchwiliad, a bydd yr adroddiad yn cynnwys y canlynol o leiaf: -

- (a) Graddau'r anaf
- (b) Achos y ddamwain
- (c) Unrhyw gamau unioni sy'n ofynnol
- (d) Person sy'n gyfrifol am gamau adferol
- (e) Ffactorau achosol

Inspirational. Inclusive. Influential.  
Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.  
[www.cardiffandvalecollege.ac.uk](http://www.cardiffandvalecollege.ac.uk)

Rhif Fersiwn:	2
Rhif Adolygiad:	4
Dyddiad Adolygu:	Hyd 18

## 6.2 Anaf mawr

Bydd ymchwiliad trylwyr i'r holl anafiadau mawr yn cael ei gynnal gan y fîm ymchwilio a nodwyd uchod; bydd yr adroddiad yn edrych ar bob agwedd ar y ddamwain/digwyddiad er mwyn canfod y gwir achosion. Rhoddir pob cymorth i'r awdurdod gorfodi os bydd ymchwiliad swyddogol yn cael ei gychwyn o ganlyniad i anaf mawr.

Bydd adroddiad llawn a manwl yn cael ei baratoi a fydd yn cynnwys y canlynol: -

- (a) Graddau'r anaf
- (b) Achos/achosion y ddamwain
- (c) Y digwyddiadau yn arwain at y ddamwain
- (d) Unrhyw amodau anniogel a nodwyd a allai fod wedi cyfrannu at y ddamwain
- (e) Unrhyw weithredoedd anniogel a nodwyd a allai fod wedi cyfrannu at y ddamwain
- (f) Adroddiadau gan unrhyw dystion
- (g) Lluniau o'r olygfa
- (f) Unrhyw gamau unioni sydd eu hangen
- (i) Person sy'n gyfrifol am gamau adferol
- (j) Ffactorau achosol

## 6.3 Difrod sylweddol i eiddo neu ddigwyddiad y bu bron iddo ddigwydd

Bydd y person iechyd a diogelwch cymwys a'r goruchwyliwr sy'n gyfrifol am yr ardal dan sylw yn cynnal yr ymchwiliad.

Gall personau eraill fel y Cydlynnydd Ystadau gymryd rhan yn benodol lle mae difrod i eiddo wedi digwydd

## 7.0 Ystadegau a Monitro

Bydd y person iechyd a diogelwch cymwys yn monitro'r holl ddamweiniâu/digwyddiadau a adroddwyd amdanynt, er mwyn nodi unrhyw dueddiadau neu feysydd sy'n peri pryder arbennig.

Ym mhob cyfarfod o Bwyllgor Iechyd a Diogelwch y Coleg, bydd y person iechyd a diogelwch cymwys yn darparu adroddiad byr o ddigwyddiadau difrifol/adroddadwy sydd wedi digwydd ers y cyfarfod

Inspirational. Inclusive. Influential.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

[www.cardiffandvalecollege.ac.uk](http://www.cardiffandvalecollege.ac.uk)

Rhif Fersiwn:	2
Rhif Adolygiad:	4
Dyddiad Adolygu:	Hyd 18

diwethaf.

Bob blwyddyn bydd y person iechyd a diogelwch cymwys yn paratoi ystadegau ar gyfer pob damwain/digwyddiad yn y coleg ar gyfer y flwyddyn academaidd. Bydd Ystadegau Blynyddol yn cael eu cyflwyno yng Nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch yn y flwyddyn academaidd newydd ac mewn cyfarfodydd dilynol bydd y person iechyd a diogelwch cymwys yn rhoi trosolwg o'r digwyddiadau hyd yma. Bydd ystadegau hefyd yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Corfforaethol bob blwyddyn yn yr Adroddiad Rheolwyr Iechyd a Diogelwch.

Bydd dadansoddiad ystadegol yn cynnwys y canlynol: -

- (a) Cymharu nifer y damweiniau/digwyddiadau â blynyddoedd academaidd blaenorol
- (b) Cyfanswm y damweiniau/digwyddiadau ar bob safle
- (c) Cyfanswm y damweiniau/digwyddiadau ar gyfer pob adran/cyfadran
- (d) Cyfanswm y damweiniau fesul mis calendr
- (e) Nifer y damweiniau i gyflogeion
- (f) Cyfanswm y damweiniau i fyfyrwyr
- (g) Cyfanswm y damweiniau i ymwelwyr/contractwyr
- (h) Mathau o ddamweiniau/digwyddiadau
- (i) Cyfraddau damweiniau/digwyddiadau mewn canrannau

## 8.0 Ymwybyddiaeth o Gyflogai/Myfyriwr/Contractwr

Bydd pob Rheolwr safle ac yn achos contractwyr, y Cydlynnydd Ystadau yn cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r angen i roi gwybod am ddamweiniau yn y modd priodol

## 9.0 Digwyddiadau Angheuol/Mawr

Os bydd damwain angheuol neu ddigwyddiad mawr sy'n torri ar draws busnes y Coleg yn ddifrifol, bydd Cynllun Rheoli Trychineb y Coleg yn cael ei roi ar waith ar unwaith.

**Nodyn:** Pryd bynnag y daw unrhyw aelod o staff yn ymwybodol o:-

- (a) anaf sy'n anablu neu anaf angheuol i aelod o staff, myfyriwr neu aelod o'r cyhoedd ar eiddo'r coleg, gweithgareddau'r coleg (gan gynnwys tripiâu maes ac ymweliadau) neu a achosir gan weithgareddau coleg

neu

(b) ddigwyddiad lle mae busnes arferol y coleg yn debygol o gael ei amharu'n ddifrifol

neu

(c) ddigwyddiad sy'n debygol o ddwyn anfri ar y coleg, bydd ef/hi yn hysbysu ei oruchwylydd a'r Rheolwr Safle ar unwaith.

**Ni fydd cyflogeion yn darparu unrhyw wybodaeth nac yn rhoi cyfweiliadau i'r cyfryngau heb awdurdod datganedig y Pennaeth ynghylch unrhyw wybodaeth yn y weithdrefn hon**

## 10.0 Campws Cymunedol Eastern High

Mae Campws Cymunedol Eastern High yn bartneriaeth rhwng Ysgol Eastern High a Choleg Caerdydd a'r Fro. Mae'r campws yn cynnwys prif adeilad ysgol sydd wedi'i feddiannu ar y cyd â dau adeilad ymylol (Salon Gwallt a Harddwch a Gweithdai gydag ystafelloedd dosbarth) sy'n cael eu rhedeg gan Goleg Caerdydd a'r Fro. Nodir bod gan bob partner broses adrodd ac ymchwilio annibynnol ar gyfer damweiniau a digwyddiadau gyda ffurflenni cysylltiedig.

I symleiddio'r broses derbynnir y gall personél Coleg Caerdydd a'r Fro sy'n defnyddio'r campws gyflwyno damweiniau naill ai ar ffurflenni adrodd CAVC (Atodiad 2) neu ffurflenni adrodd Cyngor Caerdydd. Dylid cyflwyno copi o'r ffurflen ddamweiniau yn y ffordd arferol, fel y nodir yn y weithdrefn hon.

Bydd Tîm Iechyd a Diogelwch CAVC sy'n derbyn unrhyw ffurflenni damweiniau sy'n ymwneud ag EHCC yn anfon copi at Reolwr Ystadau EHCC ac yn sicrhau bod cyfle i gynnal ymchwiliad ar y cyd os oes angen. Bydd Rheolwr Ystadau EHCC yn sicrhau bod unrhyw ffurflenni damweiniau perthnasol sy'n ymwneud â staff, Myfyrwyr, Contractwyr neu ymwelwyr CAVC yn cael eu hanfon ymlaen cyn gynted â phosibl at Dîm Iechyd a Diogelwch y Coleg. Yn achos unrhyw ddigwyddiadau neu ddamweiniau difrifol, gweithdrefn EHCC yw cysylltu â Rheolwr Iechyd a Diogelwch CAVC ar unwaith.

### Atodiad A FFURFLEN ADRODD AM DDAMWAIN/DIGWYDDIAD/DIGWYDDIAD PERYGLUS

Anfon WCH at y person lechyd a Diogelwch cymwys (ar y safle perthnasol) o fewn 3 diwrnod i ddamweiniau/digwyddiad ddigwydd

**(YSGRIFENNWCH YN GLIR)** I'w gwblhau lle bo'n bosibl gan y person a anafwyd a'i lofnodi gan y goruchwyliwr/rheolwr llinell perthnasol

Enw a chyfeiriad y person a anafwyd	Rhywedd			Swydd				
Enw Llawn	Gwryw	Benyw		Cyflogai	Myfyriwr	Ymwelydd	Contractwr	
Cyfeiriad	Rhif ID Cyflogai/myfyriwr							
	Oedran							
	Dyddiad y ddamwain							
	Amser y ddamwain							
	Lleoliad y ddamwain							
Rhif cyswllt	<b>Safle Coleg</b>	Colcot Road		Canolfan Busnes Poolbridge		ICAT		
		Coopers Yard		Canolfan Modurol (DR4)		One Canal Parade		
		Campws Canol y Ddinas		Canolfan Gofal Plant Y Barri		Canolfan Adeiladu (DR1)		
		Canolfan Gwasanaethau Adeiladu (DR2)		Campws Cymunedol Eastern High		Campws Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd		
		Oddi ar y safle / Lleoliad Arall – Nodwch os gwelwch yn dda						
		<b>Rhif ystafell</b>						
		<b>Lleoliad arall</b>						

#### Manylion y ddamwain

Math o ddamwain / digwyddiad	Ffactorau dan sylw / Achos y ddamwain (ticiwch fel sy'n briodol)		Math o Anaf
Damwain mân anaf	Alergedd Cyswllt gyda sylweddau poeth Cyswllt gydag arwynebedd poeth Trydan Amlygiad i sylweddau peryglus Disgyn o uchder Disgyn ar dir / arwyneb gwastad Disgyn ar y grisiau Anaf ffon nodwydd Lithro Anaf chwaraeon Baglu	Cyswllt gyda rhannau'n symud Llewygu Ffrwydrad tân Teclynnau llaw Chwarae gwirion Peiriannau Codi a chario Treiddio drwy'r croen Ymosodiad corfforol Pelydriad Taro yn erbyn gwrthrych Taro gan wrthrych	Adwaith alergaidd Clais Marwolaeth Gwrthrych yn y llygaid Torri Asgwrn Colli aelod Briw mawr Briw bach Briw treiddio Sblash i'r llygad Ysigiad
Damwain anaf mawr			
Damwain heb anaf			
Digwyddiad y bu bron iddo ddigwydd			
	Arall noder os gwelwch yn dda		
Enw tystion	1)	2)	



Disgrifiad o'r tystion	cyflogai		Myfyriwr		Ymwel ydd		Contractwr		Arall	
------------------------	----------	--	----------	--	--------------	--	------------	--	-------	--

A gafodd y person a anafwyd ei gludo i'r ysbyty o ganlyniad i'r ddamwain/digwyddiad	Os do gan bwy	Do		Na	
A roddwyd cymorth cyntaf	Os do gan bwy	Do		Na	
Ydy'r person a anafwyd wedi bod yn absennol o'r gwaith/astudiaethau o ganlyniad i'r ddamwain hon		Do		Na	

**PTO**

*Disgrifiad o'r ddamwain/digwyddiad, gan gynnwys rhan o'r corff a anafwyd/a effeithiwyd (e.e anaf i'r pen, braich chwith, bawd dde) Dylech gynnwys brasluniau lle y bo'n briodol*

Llofnod y person a anafwyd	
Llofnod goruchwyliwr/rheolwr	
Dyddiad	

Adroddiad yr ymchwiliad (i'w gwblhau gan y swyddog ymchwilio)

Llofnodwyd	
------------	--

Disgrifiad	
Dyddiad	

**Dyddiad cymeradwyo: Mawrth 2018**

---

**Cymeradwywyd gan:** Pwyllgor Iechyd a Diogelwch

---

**Dyddiad adolygu:** Mawrth 2020

---

**Rheolwr Cyfrifol:** Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Pharhad Busnes

---

**Arweinydd Gweithredol:** Prif Swyddog Gweithredu

---

**Hygyrch i Fyfrwyr: :** Ydy

---